WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r cam 'buddsoddi mewn chwe phrosiect adfywio allweddol' – **Cyngor Sir Penfro**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1753A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tim Buckle, Alison Lewis, Gareth Lewis a Sara Leahy dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ysgogiad newydd ar gyfer adfywio economaidd ond mae angen iddo ystyried sut i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y dyfodol

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Ceir ysgogiad newydd ar gyfer prosiectau adfywio allweddol y Cyngor, ond nid yw eto wedi nodi'r deilliannau hirdymor y mae'n eu ceisio o ganlyniad i adfywio 6

Mae'r Cyngor yn cydnabod manteision ataliol adfywio ond nid yw wedi nodi sut y bydd yn cyflawni'r rhain trwy ei brosiectau adfywio 7

Gallai'r Cyngor ddiffinio'n fwy eglur sut y mae ei waith ar adfywio'n cysylltu â'r canlynol: y nodau llesiant cenedlaethol, amcanion llesiant sefydliadau eraill, ac amcanion llesiant eraill y Cyngor 9

Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag eraill wrth gyflawni prosiectau adfywio ond ceir cyfleoedd i gryfhau cydweithio'n fewnol ac yn allanol 10

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid, ond gallai wella ac estyn ei ddull o gynnwys 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o fuddsoddiad y Cyngor mewn chwe phrosiect adfywio allweddol sydd â'r potensial i drawsnewid eu hamgylchedd lleol neu i osod y sylfeini ar gyfer twf yn y dyfodol, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud ei waith i fuddsoddi mewn chwe phrosiect adfywio allweddol. Y chwe phrosiect adfywio allweddol sy'n rhan o'r cam hwn yw:

- ailddatblygu siop adrannol Ocky White sy'n wag a Chanolfan Siopa Glan-yr-afon yn Hwlffordd;
- ailddatblygu cyfres o adeiladau sydd mewn perygl o ddymchwel yng Nghei'r De, Penfro;
- creu Parc Bwyd Llwynhelyg;
- creu Ardal Forol Doc Penfro i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy'r môr;

- adfywio glannau a marina Aberdaugleddau; a
- gwella seilwaith band eang ledled Sir Benfro i ddarparu cysylltedd cyflym iawn.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen 'Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: **Mae gan y Cyngor ysgogiad newydd ar gyfer adfywio economaidd ond mae angen iddo ystyried sut i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y dyfodol.**

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

## Mae gan y Cyngor ysgogiad newydd ar gyfer adfywio economaidd ond mae angen iddo ystyried sut i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y dyfodol

### Ceir ysgogiad newydd ar gyfer prosiectau adfywio allweddol y Cyngor, ond nid yw eto wedi nodi'r deilliannau hirdymor y mae'n eu ceisio o ganlyniad i adfywio

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

12 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Tan yn ddiweddar, mae cyllid cyfyngedig ar gyfer adfywio economaidd a chapasiti swyddogion yn y gwasanaeth wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i gyflawni'r agenda adfywio economaidd. Mae'r weinyddiaeth bresennol wedi blaenoriaethu adfywio economaidd yn ei 'Rhaglen Weinyddu' ac fe gomisiynodd y Cyngor adolygiad gan gymheiriaid i fwrw golwg ar y swyddogaeth datblygu economaidd ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella.
- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn Pennaeth Datblygu Economaidd newydd ac wedi adnabod hyd at £20m o gyllid posibl i gefnogi gwaith adfywio economaidd.

[2] Gweler Atodiad 1

- Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Datblygu Economaidd Sir Benfro 2017-2022 yn seiliedig ar ymchwil gan gynnwys: data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gwybodaeth am broffil economaidd, trafodaethau gyda phartneriaid lleol a chyfweliadau gyda busnesau.
- Mae'r Cyngor wedi ystyried tystiolaeth ynglŷn â natur newidiol canol trefi i oleuo'i weledigaeth ar gyfer dyfodol canol tref Hwlffordd ac mae ei weledigaeth ar gyfer Penfro'n dal i ddatblygu.

14 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae Strategaeth Datblygu Economaidd y Cyngor yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd hyd at 2022. Mae cyfle i ddiweddaru'r cynllun er mwyn:
  - sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol y Cyngor;
  - nodi'r deilliannau a'r effeithiau y mae am eu cyflawni;
  - ystyried y pum ffordd o weithio yn y Ddeddf; a
  - bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei fuddsoddi mewn modd sy'n taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor.

  Mae'r mwyafrif o'r chwe maes sy'n flaenoriaeth i'r Cyngor ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gyflawni gweithgarwch byrdymor i wneud cynnydd pendant, ar unwaith.
- Mae cyflawni'r chwe phrosiect allweddol ar hyn o bryd yn seiliedig ar adfywio ffisegol ac nid yr agenda adfywio ehangach. Mae gan y Cyngor raglenni sy'n cefnogi agweddau ehangach ar adfywio, er enghraifft hyfforddiant sgiliau trwy raglenni gan gynnwys prentisiaethau a Gweithffyrdd. Nid yw'r Cyngor wedi diffinio'n glir sut y bydd yr elfennau hyn yn cyd-fynd â'i raglen adfywio gyfredol. Mae rhai adnoddau ychwanegol ar ffurf swyddogion wedi cael eu hadnabod i gefnogi adfywio ond nid yw'r Cyngor wedi adolygu'r adnoddau hyn eto i weld a ydynt yn ddigon i gyflawni ei gynllunio ar gyfer adfywio yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod manteision ataliol adfywio ond nid yw wedi nodi sut y bydd yn cyflawni'r rhain trwy ei brosiectau adfywio

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a

- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

## Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi canfod nifer o broblemau y mae'n ceisio'u hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth, gan gynnwys:
  - dirywiad economaidd yn y sir;
  - bod ar ei hôl hi lle mae datblygiadau technegol, e.e. band eang, yn y cwestiwn;
  - dirywiad adeiladau;
  - dirywiad canol trefi; a
  - diffyg sgiliau/swyddi yn y sir.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud peth gwaith i ddeall y materion y mae'n ceisio'u hatal. Gellir gweld hyn yn rhannol yn ei Strategaeth Datblygu Economaidd, yr Astudiaeth Manwerthu Rhanbarthol a'r uwchgynlluniau trefi.

18 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Yn ei gynlluniau ar gyfer adfywio, gallai'r Cyngor nodi'n fwy eglur beth mae'n ceisio'i atal trwy'r 'cam' hwn a sut y bydd yn cyflawni hyn. Er bod y Cyngor yn ymwybodol o effaith ataliol ehangach adfywio, nid yw'r metrigau ar gyfer y prosiectau a'r rhaglen adfywio ar y cyfan yn adlewyrchu'r ffactorau ataliol ehangach hyn. Mae'r mesurau cyfredol ar gyfer y prosiectau'n ymwneud â'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran gweithgarwch, yn hytrach na monitro pa mor effeithiol yw'r prosiectau adfywio o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.
- Mae ffocws cyfredol y Cyngor trwy'r cam ar adfywio ffisegol ac nid yr agweddau ataliol ehangach ar adfywio.

[3] Gweler Atodiad 1

## Gallai'r Cyngor ddiffinio'n fwy eglur sut y mae ei waith ar adfywio'n cysylltu â'r canlynol: y nodau llesiant cenedlaethol, amcanion llesiant sefydliadau eraill, ac amcanion llesiant eraill y Cyngor

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae gan y Cyngor Strategaeth Adfywio Economaidd sy'n cwmpasu Sir Benfro gyfan. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y strategaeth ranbarthol gynharach, Strategaeth Datblygu Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030.

22 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Gallai'r Cyngor ddiffinio'n fwy eglur sut y mae'r gwaith y mae'n ei wneud mewn perthynas ag adfywio'n cysylltu â'r canlynol: y saith nod llesiant cenedlaethol, amcanion llesiant sefydliadau eraill (gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) ac amcanion llesiant eraill y Cyngor.
- Nid yw'r Cyngor yn cyflawni'r chwe phrosiect adfywio o safbwynt dull integredig rhwng yr holl brosiectau. Er enghraifft, nid yw'r Fframweithiau Adfywio Strategol ar gyfer Penfro a Dinbych-y-pysgod yn cyfeirio at gysylltedd band eang.
- Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod cyfle i wneud mwy mewn perthynas â chyfraniad y prosiectau adfywio at gyflawni amcanion adrannau eraill yn y Cyngor.

[4] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag eraill wrth gyflawni prosiectau adfywio ond ceir cyfleoedd i gryfhau cydweithio'n fewnol ac yn allanol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag eraill i gyflawni prosiectau adfywio, gan gynnwys cydweithio gyda: Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, partneriaid busnes yn y sector preifat mewn perthynas â Pharc Bwyd Llwynhelyg a grwpiau busnes lleol a chynghorau tref trwy'r dull Timau Tref.
- Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar feithrin ei berthynas â Llywodraeth Cymru ac mae bellach yn cwrdd â swyddogion yn fwy rheolaidd.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Adfywio mewnol. Dywed y Cyngor fod y bwrdd hwn yn helpu i wella rheolaeth a throsolwg ar y prosiectau. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu swyddogaethau cleientiaid a chyflawni mwy eglur ar gyfer ei brosiectau.

26 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Gallai'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau cydweithio cyfredol a phenderfynu sut allai barhau i adolygu'r rhain yn y dyfodol gyda'i raglen.
- Caiff Timau Tref eu nodi fel enghraifft o gydweithio rhwng y Cyngor a sefydliadau allanol gan gynnwys grwpiau busnes lleol, cynghorau tref a grwpiau buddiant lleol. Fodd bynnag, ceir peth dryswch ynglŷn ag union rôl y Timau Tref mewn perthynas â'r chwe phrosiect adfywio a'u rôl yn y strategaeth ar gyfer adfywio yn y dyfodol.

[5] Gweler Atodiad 1

- Mae'r adran adfywio'n cydweithio'n fewnol, er enghraifft i ddarparu canolfan ieuenctid yn Hwlffordd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod y gallai fod meysydd lle gallai adfywio weithio'n fwy effeithiol gyda rhannau eraill o'r Cyngor i gydblethu manteision ehangach y gwaith adfywio. Ar lefel strategol yn y sefydliad mae cyfle i archwilio hyn ymhellach.
- Mae'r Cyngor wedi dechrau nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer ei Fwrdd Rhaglen Adfywio mewnol ond mae cyfle i adolygu ac egluro'r trefniadau hyn, gan gynnwys cylch gorchwyl y bwrdd.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid, ond gallai wella ac estyn ei ddull o gynnwys

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi ennyn ymgysylltiad cymunedau â'i waith ar adfywio gan gynnwys:
  - ymgynghori ynghylch uwchgynlluniau canol trefi trwy'r gwaith Timau Tref;
  - ymgyngoriadau penodol ynghylch prosiectau Cei'r De ac Ocky Whites; a
  - chydweithio'n agos gyda'r defnyddiwr busnes allweddol wrth ddatblygu safle Parc Bwyd Llwynhelyg.
- Mae'r Cyngor yn ystyried cyfleoedd i wella'r wybodaeth y mae'n ei darparu ar gyfer y cyhoedd a phartneriaid am ei waith adfywio. Mae hyn yn cynnwys:

[6] Gweler Atodiad 1

tudalennau gwe newydd i hyrwyddo'i waith adfywio, cyhoeddi erthyglau yn Pembrokeshire Busnes News, a chynyddu ei bresenoldeb ar Facebook.

30 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Er bod gan y Cyngor fframwaith corfforaethol ar gyfer ymgysylltu nid oes cynllun ar y cyfan i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch mentrau adfywio.
- Nid oes proses y cytunwyd arni ar gyfer adolygu a dysgu gwersi o'r gweithgarwch ymgysylltu sy'n digwydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi myfyrio ar y gwaith ymgynghori diweddar ynghylch Cei'r De ac mae wedi ychwanegu gwybodaeth am y cynigion at ei dudalen Facebook i geisio ehangu'r ddemograffeg y mae'n ymgysylltu â hi.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud mân newidiadau i'r cynllun llyfrgelloedd, ar ôl cwblhau'r prosiect, i ymgorffori awgrymiadau/adborth gan ddefnyddwyr llyfrgelloedd ag anableddau.
- Er bod y Cyngor wedi cymryd camau i adnabod ac ymgysylltu â grwpiau yn y gymuned, ceir camau pellach y gallai'r Cyngor eu cymryd i wella'i ddull o gynnwys, gan gynnwys:
  – nodi sut y bydd cynnwys pobl yn helpu i oleuo gwaith adfywio'r Cyngor;
  – sicrhau bod gwaith cynnwys yn cwmpasu amrywiaeth lawn y gymuned;
  – cynnwys pobl yn ystod pob cam o'r broses gan gynnwys dylunio, datblygu, cyflawni ac adolygu; a
  – mynd ati'n rheolaidd i adolygu ei drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu i wella gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

31 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019 yr oedd swyddogion o'r Cyngor yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ar ein canfyddiadau mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol:

Datblygu strategaeth a phartneriaeth adfywio lefel-uchel ar gyfer Sir Benfro. Bydd y strategaeth yn cynnwys:

- casgliad o fanteision (ataliol) a deilliannau mesuradwy hirdymor ac eang eu sail;
- manylion y cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant (partneriaid) lleol
- cynllun ymgysylltu strwythuredig.

Bydd y bartneriaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cydweithio cryfach yn fewnol ac yn allanol; ac
- ymgysylltu effeithiol sy'n arwain at gyd-ddylunio.

32 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u nodi yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau sy'n ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (EDC). Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid ystyried mai 'dangosyddion' ydynt a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' sy'n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r EDC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 2: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru